## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 29[ain] Medi 2010 am 09:30am.

### PRESENNOL

Y Cynghorwyr J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain Jones, W L Cowie, M Ll Davies, P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, R L Feeley, I A Gunning, D Hannam, C Hughes, H Ll Jones, G M Kensler, P J Marfleet, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau), Arweinydd Tîm (Cefnogi) (G Butler) Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr I Armstrong, J A Davies, J M Davies, P Duffy, N Hughes a T R Hughes,.

### 343 MATERION BRYS

ENF/2010/00081

Esgeuluso Adeilad Rhestredig, Commerce House, Heol y Bont, Corwen. Cais am awdurdod i gyflwyno Rhybudd Gwaith Brys Ar Adeilad Rhestredig.

### 344 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac yn gofyn am benderfyniadau gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD** bod:-*

*(a) argymhellion y swyddogion, a gynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynwyd, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad cynllunio yn ôl yr achos, yn cael eu cyhoeddi yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Digolledu, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn achos y datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Rhif | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2010/1055/PF | **SIARADWR YN ERBYN SELWYN WILLIAMS**<br>**SIARADWR O BLAID G KENSLER**<br>Datganwyd diddordeb gan y Cynghorwyr Ray Bartley a C Hughes (y ddau yn Gynghorwyr Tref Dinbych) a'r Cynghorydd G Kensler (fel un o gefnogwyr y prosiect) yn y cais canlynol a gadawsant y siambr yn ystod yr ystyriaeth ar y cais.<br>Yn dilyn ystyriaeth i ddau lythyr yn cynnwys sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Dinbych a'r Swyddog Adfywio a Thwristiaeth.<br>Codi cerflun pres maint llawn o Henry Morton Stanley (Fforiwr)<br>**Cwrt blaen o flaen Llyfrgell Amgueddfa Dinbych a Sgwâr y Neuadd Dinbych.**<br>**CANIATÂD** |

**Newidiadau i amodau a argymhellir/'rhesymau dros wrthod:**
Diwygier y rhestr o gynlluniau a ganiatawyd i gyfeirio at:
raddfa1:100 Cynllun Trefniadau Cyffredinol a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 24ain Medi 2010.
**Newidiadau i Nodiadau a argymhellir i'r ymgeisydd:**
Ychwanegu nodyn newydd:
Fe'ch cynghorir i gysylltu gydag Adrannau Priffyrdd a Chyfreithiol y Sir cyn cychwyn ar unrhyw waith ar y safle, er mwyn sicrhau bod y cydsyniadau/trefniadau perthnasol wedi eu cytuno i leoli'r cerflun ac i ail-leoli dodrefn priffordd.

02/2010/0914/PR

**SIARADWR YN ERBYN NICHOLAS JONES**
Manylion ymddangosiad, graddfa, cynllun a thirlunio wedi eu cyflwyno yn unol ag Amod Rhif 1 ar ganiatâd cynllunio amlinellol Cod Rhif 02/2009/738/PO (Materion a gadwyd yn ôl)
**Tir rhwng Pentre Newydd a Bryn Eglur Galltegfa Rhuthun**
**CANIATÂD**
**Newidiadau i Nodiadau a argymhellir i'r Ymgeisydd:**
Nodyn Ychwanegol:
Fe'ch cynghorir bod sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei dynnu at anghydfod cyfreithiol preifat yn ymwneud â pherchnogaeth/diffiniad o derfynau'r plot, a thra bod y rhain i'w datrys rhwng y partïon dan sylw, dylech fod yn ymwybodol nad yw cael sêl bendith ar y cynlluniau yn goresgyn unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a all wneud y caniatâd yn ddi-rym neu a all rwystro iddo gael ei weithredu.

23/2010/0884/PF

**SIARADWR O BLAID PETER LLOYD**
Defnyddio tŷ allan fel llety gwyliau
**Bryn Llwyn Y Godwys Llanrhaeadr Dinbych**
**CANIATÂD**
Rheswm y Pwyllgor dros roi caniatâd yn groes i argymhelliad y swyddog cynllunio oedd yr amgylchiadau arbennig yn ymwneud â'r eiddo, yr awydd i annog deunydd o adeiladau gweigion ac i gydnabod gwerth potensial uned gwyliau i gefnogi polisïau Twristiaeth y Cyngor.
Caniatâd – yn amodol ar y canlynol:

1. Rhaid i'r adeilad gael ei ddefnyddio fel llety gwyliau yn unig.
   *Rheswm:* Er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio i'r diben yr ymgeisiwyd amdano yn unol â pholisïau twristiaeth y Cyngor.
2. Bod y llety gwyliau yn parhau yn rhan o uned gynllunio yr annedd Bryn Llwyn y Godwys, ac nad yw i'w werthu na'i waredu fel uned ar wahân.
   *Rheswm:* Mae'r adeilad wedi ei godi yn wreiddiol i ddibenion atodol i annedd oedd ar gael eisoes a byddai ei rannu oddi wrth yr uned annedd yn golygu symudiad amlwg oddi wrth bolisi ataliaeth wledig y Cyngor.

**GWEITHREDIADAU**
Cyn cyhoeddi unrhyw benderfyniad, bydd gofyn i'r Swyddogion gysylltu ag asiantau i drafod opsiynau ar gyfer caniatâd dan amodau i gydio'r uned gwyliau wrth Bryn Llwyn y Godwys/i rwystro iddo gael ei werthu fel uned breswyl ar wahân.

43/2010/0437/PF

**SIARADWR YN ERBYN HAROLD MARTIN**
Codi estyniad to goleddf ac amnewid portsh a dymchwel garej ddomestig a chodi un yn ei lle yng nghefn yr annedd..
**37 Harlech Crescent Prestatyn**
**CANIATÂD**

43/2010/0560/PF

Codi garej ddwbl gyda thalcendo a newidiadau i'r mynediad i gerbydau sydd yno ar hyn o bryd.

**1 Brynllys Gorllewin Prestatyn**
**CANIATÂD**

(ii) Gwrthodiadau

02/2010/0110/PC

Parhau i ddefnyddio tir fel maes parcio (Adolygol).
**Ysgol Rhuthun, Rhuthun**
**GWRTHOD**

ENF/2010/00079

Deunydd anawdurdodedig o gyrtiau tennis ysgol yn faes parcio
**Cyrtiau Tennis Ysgol Rhuthun. Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun**
***Penderfynwyd***

*3.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi cyhoeddi Rhybudd Gorfodaeth o dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gyda chyfnod cydymffurfio o fis, yn mynnu rhoi terfyn i ddefnyddio'r cyrtiau tennis fel maes parcio.*
*3.2 Rhoi cychwyn ar achos erlyn yn erbyn unrhyw berson sydd wedi derbyn rhybudd sydd yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio gyda darpariaethau'r Rhybudd.*

47/2010/0650/PO

Datblygu 0.04 hectar o dir drwy godi 1 annedd (cais amlinellol – pob mater wedi ei gadw yn ôl)
**Tir yn (rhan o ardd) Bryn Mawr, Ffordd Rhuallt, Cwm, Dyserth**
**GWRTHOD**

47/2010/0726/PF

**SIARADWR O BLAID KEVIN PENWRIGHT**
Codi estyniad deulawr gyda tho ar oleddf a balconi ar ochr yr annedd a newidiadau i fynediad cerbydau sydd eisoes ar gael.
**Bryn Siriol Rhuallt Llanelwy**
**GWRTHOD**

47/2009/1381/PF

**SIARADWR YN ERBYN MORAG JELLY**
**SIARADWR O BLAID ADRIAN PARRY JONES**
Newid deunydd tir i ffurfio safle 85 o garafanau teithiol gyda derbynfa gysylltiedig ag adeiladau toiled, tirlunio a gosod gwaith trin pecynnau
**Tir y tu ôl i Gwmni Fifth Wheel, Ffordd Treffynnon, Rhuallt, Llanelwy**
**GWRTHOD**
**Newidiadau i'r rheswm a argymhellwyd dros wrthod:**

1. Barn yr awdurdod cynllunio lleol yw bod y maes carafanau teithiol arfaethedig yn annerbyniol yn nhermau'r raddfa o ddefnydd o'r lleoliad hwn yng nghefn gwlad, a'i effaith weledol a thirweddol botensial, o gofio ei safle mewn ardal weledol sensitif, sydd i'w gweld o dir uwch o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd 600 metr i'r dwyrain, gan gynnwys Llwybr Clawdd Offa. Ystyrir bod y cynigion yn gwrthdaro yn erbyn Polisi STRAT 9, ENV 2, TSM 12 Maen Prawf i), a iv), GEN 6 Maen Prawf ii) a iii) Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Ddinbych, canllawiau a gynhwysir yn TAN 12 Twristiaeth (Hydref 1997).

**345 EITEMAU ER GWYBODAETH**

Adroddiadau a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cynllunio a diogelu'r Cyhoedd er gwybodaeth.

a. Fferm Wynt Mynydd Mynylliod – Datganiad drafft Ymgynghoriad Cymuned.
b. Gorchmynion Rheilffordd Llangollen a Chorwen 2010.
c. Ceisiadau a alwyd i mewn – Stryd Clwyd Rhuthun.

Adroddiad a ddosbarthwyd yn y cyfarfod yn rhoi gwybodaeth am y gost y gais yn ymwneud a'r Ceisiadau a Alwyd i mewn yn Stryd Clwyd, Rhuthun.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiadau er gwybodaeth.*

**346 EITEM BRYS**

Adroddiadau a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cynllunio a diogelu'r Cyhoedd er gwybodaeth.
Esgeuluso Adeilad Rhestredig

**Commerce House Heol y Bont Corwen**
***PENDERFYNWYD***

*3.1 Gyda'r bwriad o sicrhau'r adeilad rhag dirywiad pellach buan, bod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi cyflwyno Rhybudd Gwaith Brys Adeilad Rhestredig, er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac wedi ei wneud yn ddiddos rhag yr elfennau.*

*3.2 Pe na bai'r perchennog yn peidio â chyflawni'r gwaith brys angenrheidiol, byddid yn gwneud y gwaith nas gwnaed, ac yn ceisio adfer oddi ar y perchennog yr holl gostau rhesymol a wariwyd wrth gyflawni'r gwaith.*

Terfynwyd y cyfarfod am 11.45 a.m.

********